Ysgol Gymraeg Dewi Sant

# CYNLLUN DATBLYGU YSGOL

**2024 - 2025**

## Blaenoriaethau

| |
|---|
| B1. Parhau i godi safonau a gwella ansawdd dysgu ac addysgu darllen Cymraeg a Saesneg ar draws yr ysgol. |
| B2. Mireinio egwyddorion Cwricwlwm i Gymru gan ddatblygu cwricwlwm sydd yn hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. |
| B3. Sicrhau her briodol i gefnogi disgyblion i wneud cynnydd mewn gweithgareddau annibynnol. |
| B4. Parhau i weithio tuag at dargedau'r ysgol wrth ystyried gofynion Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol. |

# Blaenoriaeth 1

**Parhau i godi safonau a gwella ansawdd dysgu ac addysgu darllen Cymraeg a Saesneg ar draws yr ysgol.**

**Meini Prawf Llwyddiant**

- Mae pob disgybl yn gwneud cynnydd darllen Cymraeg a Saesneg (CA2).
- Data cyfarfodydd cynnydd disgyblion yn dangos bod bron pob disgybl yn datblygu medrau darllen ac wedi gwneud cynnydd o'u man cychwyn.
- Mae addysgu darllen Cymraeg a Saesneg (CA2) yn dda neu'n well ym mhob dosbarth.
- Mae'r cydlynydd wedi derbyn hyfforddiant Ail-ystyried darllen ac yn rhannu prosesau ac arfer dda gyda staff. Mae staff yn defnyddio dulliau effeithiol yn gyson ac yn paratoi gweithgareddau darllen pwrpasol sydd yn sicrhau safonau darllen da iawn ar draws yr ysgol.

**Hyfforddiant:**

- Ail-ystyried Darllen
- Sut i ddefnyddio'r adnodd digidol Gigglets
- Hyfforddiant Tric a Chlic i gynorthwyon

**Gweithgareddau:**

- Adolygiad o gynnydd disgyblion a thargedu unigolion i dderbyn ymyrraethau darllen.
- Cyfathrebu gyda rhieni, gofalwyr a llywodraethwyr i godi ymwybyddiaeth o ddisgwyliadau darllen ar draws yr ysgol.
- Cynnal sesiynau cefnogi darllen i rieni.
- Ail-gyflwyno adnoddau darllen i ddisgyblion e.e gwefan Darllen gyda Dewi, Darllen Co ac Oxford Raeding Buddy.
- Monitro darpariaeth a safonau darllen gan gynnwys cofnodion darllen.
- Gwahodd awduron Cymraeg a Saesneg i gynnal sesiynau darllen er mwyn codi statws darllen.

# Blaenoriaeth 2

**Mireinio egwyddorion Cwricwlwm i Gymru gan ddatblygu cwricwlwm sydd yn hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.**

## Meini Prawf Llwyddiant

- Mae'r holl randdeilaid yn ymwybodol o weledigaeth Cwricwlwm yr ysgol.
- Mae dysgu dyddiol yn adlewyrchu'r 4 Diben. Mae Fframwaith clir o ofynion y Meysydd Dysgu a Phrofiad gyda'r camau cynnydd wedi mapio'n glir.
- Mae cynllunio a threfniadau asesu yn ymateb i ofynion CiG ac mae staff yn hyderus wrth roi ar waith gofynion CiG.
- Cynllunio a sefydlu monitro MDaPh i sicrhau bod prosesau'n gadarn ac yn effeithiol i hwyluso gwelliant (Ymarfer, Cynnydd a Safonau)
- Mae gwell dealltwriaeth gan yr holl staff o sut i hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant gan gynnwys gwrth-hiliaeth.
- Mae'r holl addysgu a dysgu ACRh yn cyd-fynd â'r Cod ACRh.
- Mae gan ACRh bresenoldeb ysgol gyfan dda/gwell ar draws yr amgylchedd dysgu.
- Mae polisi ACRh mewn lle ac wedi ei rhannu gyda'r holl rhanddeiliaid.

## Gweithgareddau:

Cwricwlwm

- Adolygu Gweledigaeth yr Ysgol / Gweledigaeth Cwricwlwm.
- Datblygu a chysoni cynllunio tymor canolig.
- Adolygu arolwg Ysgolion fel Sefydliad sy'n Dysgu.

Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

- Ymgynghori gyda rhanddeiliaid gan gynnwys sefydlu fforwm i rieni wrth sefydlu gweledigaeth a pholisi ACRh.
- Gwella ein dull ysgol gyfan o ymdrin ag ACRh a datblygu diwylliant drwy wneud ACRh yn fwy gweladwy.

Hybu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant gan gynnwys Gwrth-hiliaeth.

- Hyfforddiant gwrth-hiliaeth i holl staff yr ysgol.
- Datblygu gweledigaeth a pholisi gwrth-hiliaeth.

- Awdit adnoddau a llyfrau er mwyn sicrhau cynhwysiant.

# Blaenoriaeth 3

## Sicrhau her briodol i gefnogi disgyblion i wneud cynnydd mewn gweithgareddau annibynnol.

### Meini Prawf Llwyddiant

- Mae dulliau cyson ar draws dysgu sylfaen.
- Mae gan yr holl ymarferwyr ddealltwriaeth dda o sut i ddarparu adnoddau ar gyfer dysgu sy'n briodol heriol i ddisgyblion trwy chwarae rhydd, chwarae dan arweiniad a dysgu yn seiliedig ar chwarae a'i gynllunio.
- Caiff pob disgybl dysgu sylfaen fynediad i gyfleoedd ystyrlon ar gyfer chwarae rhydd a chwarae dan arweiniad sy'n darparu her briodol ac yn cefnogi annibyniaeth.
- Mae cydweithio a gwneud newidiadau priodol i'w hamgylchedd dysgu yn sicrhau cynllunio ar gyfer mynediad annibynnol i gyfleoedd ystyrlon, heriol ar gyfer chwarae rhydd a chwarae dan arweiniad (dan do a awyr agored).
- Mae system hunan-wella effeithiol mewn lle ac mae staff yn hyderus wrth gyd-weithio er mwyn gwella darpariaeth.

### Hyfforddiant:

- Cefnogaeth gan y Tîm Dysgu Sylfaen CSC – Ruth Best/Nia Waghorn
- Hyfforddiant Dysgu Sylfaen (CSC): Datblygu Amgylchedd Dysgu Effeithiol Dan Do ac yn yr Awyr Agored, Hyfforddiant 'Block Play', Hyfforddiant Rôl yr Oedolyn a Hyfforddiant 'Observations Foundation Learning'

### Gweithgareddau:

- Gweithredu cynllun Llwybrau (Pathways) yn y Blynyddoedd Cynnar.
- Cysoni cynllunio ar draws Blwyddyn 1 a 2.
- Sicrhau dilyniant yn y dysgu.
- Gosod yr amgylchedd dysgu - tu fewn a thu allan sy'n sicrhau cyfleoedd annibynnol, ystyrlon a heriol.
- Awdit o adnoddau er mwyn cefnogi darpariaeth y dosbarthiadau.

# Blaenoriaeth 4

**Parhau i weithio tuag at dargedau'r ysgol wrth ystyried gofynion dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol.**

**Meini Prawf Llwyddiant**

- Gweithredu a chyflawni gofynion dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol – gweler Cynllun Gweithredu Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol.
- Gweithredu Cynllun PATHS (Barnados) hyd at Flwyddyn 6.
- Staff dysgu wedi ymgysylltu gyda hyfforddiant a darparwyd gan y Gwasanaeth Seicolegol.
- Ysgol yn ymateb i anghenion emosiynol a meddyliol staff a disgyblion.

**Hyfforddiant:**

- Hyfforddiant Team Teach.
- Hyfforddiant ELSA.
- Hyfforddiant – Ymateb i ymddygiad gyda dwy law/Ymwybyddiaeth o Straen.

**Gweithgareddau:**

- Adolygu a gweithredu targedau'r Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol.
- Gweithredu cynllun PATHS o'r Feithrin i Flwyddyn 6.
- Monitro effaith y cynllun PATHS ar sgiliau emosiynol a chymdeithasol disgyblion.
- Hyrwyddo gweithdrefnau Iechyd a Lles - cynnal holiaduron lles i ddisgyblion, staff a rhieni.
- Codi ymwybyddiaeth o ddiwrnodau lles achlysurol - Helo Melyn, Diwrnod Iechyd Meddwl.
- Ymgysylltu gydag arolwg Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion (SHRN - The School Health Research Network.

Ysgol Gymraeg Dewi Sant